**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-533
Ein cyf/Our ref CS/05404/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau

Petition@Wales.gsi.gov.uk

13 Tachwedd 2014

Annwyl Bill,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref, ynghylch y ddeiseb gan GALAR sy'n cael ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebiadau. Rwy'n nodi bod y materion a godwyd yn yr ohebiaeth ddiweddaraf gan y deisebwr yn wahanol iawn i'r ddeiseb wreiddiol. Rwyf wedi ateb y materion a godwyd, fodd bynnag.

Mae Eitem 1 yn gysylltiedig â sut yr ydym yn ymgynghori â'r cyhoedd a sut y gallant gynnig sylwadau ar geisiadau cynllunio. Mae'r system gynllunio yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cyhoedd gynnig sylwadau ar geisiadau, a dylid ystyried eu barn wrth wneud penderfyniadau. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn pennu y gofynion cyhoeddusrwydd sy'n rhaid eu cyflawni gan yr awdurdodau cynllunio lleol. Fel a nodwyd yn fy ymateb blaenorol i chi ar y mater hwn, nid wyf yn credu y byddai refferenda lleol yn ffordd briodol o ymgynghori â'r cyhoedd ar geisiadau cynllunio.

Mae eitem 2 yn gysylltiedig â'r cymhorthdal i ddatblygiadau ynni yng Nghymru, sydd, fel a nodwyd yn llythyr y deisebwr, yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU.

Mae eitem 2 a 5 yn cyfeirio at gysylltiad grid. Y Grid Cenedlaethol sy'n gweinyddu'r grid, mewn partneriaeth â Gweithredwyr y Rhwydwaith Ddosbarthu ledled y DU, ac mae'n atebol i Weinidogion y DU. Mae'r deisebwr yn awgrymu i'r Pwyllgor Deisebiadau dderbyn cyngor gan y Grid Cenedlaethol a gallaf gadarnhau eu bod yn y sefyllfa orau i roi cyngor ar sut y gallant reoli gallu y grid yn unol â pholisïau DECC.

Mae eitemau 3 a 4 yn gysylltiedig â sicrhau bod tyrbin gwynt sy'n stopio gweithio, oherwydd problemau ariannol neu ddifrod, yn cael ei symud. Gall awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio amodau cynllunio i wneud cais i ddatblygiadau, gan gynnwys tyrbinau gwynt sengl, nad ydynt bellach yn cynhyrchu trydan am gyfnod parhaus, er enghraifft 12 mis, i gael eu symud.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Nid wyf yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth a gynigwyd gan GALAR ac rwyf o'r farn fod y system gynllunio yn delio'n briodol â'r materion sydd wedi'u datganoli.

Yn gywir,

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources